OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1403

## Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015

**Asesu'r effaith**

**6.**—(1) Rhaid i fanylion y gwarediad arfaethedig, a gaiff eu paratoi gan awdurdod lleol at ddibenion rheoliad 5(2)(b), (3), (4), (6)(d) a (7), gynnwys gwybodaeth am yr effaith y byddai'r gwarediad arfaethedig o gae chwarae, neu unrhyw ran o gae chwarae, yn ei chael ar unrhyw strategaethau, cynlluniau neu asesiadau perthnasol, ym marn yr awdurdod lleol.

(2) Y strategaethau, cynlluniau neu asesiadau perthnasol at ddibenion paragraff (1) yw—

(a) y cynllun a luniwyd ar gyfer yr ardal o dan adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**1**);

(b) yr asesiad a luniwyd ar gyfer yr ardal o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**2**);

(c) y strategaeth a luniwyd ar gyfer yr ardal o dan adran 39 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**3**);

(d) y strategaeth a luniwyd ar gyfer yr ardal o dan adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**4**); ac

(e) unrhyw strategaethau, cynlluniau neu asesiadau eraill ag sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

(**1**) 2004 p. 5. Diwygiwyd adran 62 gan adran 51(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 2 iddo.
(**2**) 2010 mccc 1.
(**3**) 2009 mccc 2.
(**4**) 2006 p. 42.